Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru): Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i'r **Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth)** ('y Bil') yn ystod trafodion Cyfnod 2.

## Cefndir

Cyflwynwyd y Bil ar 29 Ebrill 2013 gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, a chyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y **Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc** ('y Pwyllgor') i graffu arno yng Nghyfnod 1. Yn dilyn ymddiswyddiad y Gweinidog ar 26 Mehefin 2013, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros y Bil i Huw Lewis AC, y Gweinidog newydd dros Addysg a Sgiliau.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei **adroddiad Cyfnod 1** ym mis Gorffennaf 2013. Hefyd, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad ar ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Bil** yn yr un mis.

Cafodd y Bil ei gymeradwyo'n unfrydol gan y Cynulliad yng Nghyfnod 1 ar ôl **dadl ar ei egwyddorion cyffredinol** yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Medi 2013.

Dechreuodd trafodion Cyfnod 2 ar 25 Medi. **Cyflwynwyd cyfanswm o 15 o welliannau**, 4 ohonynt gan Lywodraeth Cymru. Cyfarfu'r Pwyllgor i ystyried a gwaredu'r gwelliannau ar 24 Hydref 2013.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael mewn **Crynodeb o'r Bil** a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## Gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2

Derbyniwyd dim ond 3 o'r 4 gwelliant a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Ni dderbyniwyd gwelliant 6, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth i geisio sicrhau bod o leiaf dau aelod o staff ac o leiaf dau fyfyriwr o'r sefydliad yn aelodau o'r corff llywdraethu.

O'r 11 gwelliant na chyflwynwyd gan y Llywodraeth, gwrthodwyd 7 a thynnwyd 4 yn ôl.

Isod, mae crynodeb o'r newidiadau a wnaed i'r Bil drwy'r tri gwelliant gan y Llywodraeth a dderbyniwyd:

### Cydsyniad ymddiriedolwyr

Roedd **gwelliant 4** yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu geisio cydsyniad ymddiriedolwyr cyn addasu, neu ddisodli, offeryn ac erthyglau llywodraethu sefydliad addysg bellach.

### Aelodau cyrff llywodraethu

Roedd **gwelliant 5** yn gwahaniaethu'n glir rhwng y dulliau a fabwysiadwyd yng Nghymru a Lloegr i benodi/ethol aelodau o gyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach.

### Ymgynghori

Roedd **gwelliant 7** yn gweithredu argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad cyfnod 1, ac yn rhoi cyfrifoldeb ar sefydliadau addysg bellach i ymgynghori â chyflogwyr, myfyrwyr a chymunedau lleol ynghylch y cwricwlwm lleol a'r modd y caiff ei roi ar waith.

## Ymrwymiadau a wnaed gan y weinidog

Yn ystod trafodion Cyfnod 2, ymrwymodd y Gweinidog i gyflwyno gwelliannau cyn dadl Cyfnod 3 a hynny fel ymateb i'r materion a godwyd gan y gwelliannau a ganlyn gan y gwrthbleidiau.

Nod **gwelliannau 13** a **14**, a gyflwynwyd gan Bethan Jenkins AC a Simon Thomas AC yn ôl eu trefn, oedd mewnosod darpariaeth newydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r modd roedd y Ddeddf yn cael ei gweithredu, a hynny cyn pen blwyddyn ar ôl ei chychwyn. Roedd gwelliant 13 yn ymwneud ag adolygu'r Ddeddf o ran ei heffaith ar **gyllid ar gyfer pobl ifanc 16 a 18 oed** , ac roedd gwelliant 14 yn canolbwyntio ar effaith y Ddeddf ar **ddarpariaethau'r iaith Gymraeg** ac **anghenion dysgu ychwanegol**.

Dywedodd y Gweinidog ei fod yn gefnogol i'r syniad y tu ôl i'r y ddau welliant a chytunodd i ystyried y materion hyn yn fanylach cyn cynnal dadl Cyfnod 3 i sicrhau y byddai unrhyw adolygiad o'r Ddeddf yn cyd-daro â'r cynlluniau addysg a'r amserlenni adolygu presennol. Cytunodd y ddau Aelod i dynnu eu gwelliannau'n ôl o ystyried sylwadau'r Gweinidog.

## Y camau nesaf

Paratowyd **fersiwn ddiwygiedig o'r Bil**.

Dechreuodd trafodion Cyfnod 3 ar **25 Hydref 2013** (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2). Gall yr Aelodau gyflwyno rhagor o welliannau i'r Swyddfa Ddeddfwriaeth **erbyn 6pm dydd Mawrth 26 Tachwedd 2013** **(SwyddfaDdeddfwriaeth@cymru.gov.uk). Cynhelir trafodion Cyfnod 3 yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 3 Rhagfyr 2013.**

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r Clerc, Bethan Davies (**bethan.davies@cymru.gov.uk**).